



Ein cyf: MA/LW/1354/22

Dr David Clubb  
[David@afallen.cymru](mailto:David@afallen.cymru)

7 Ebrill 2022

### **Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW)**

Yn ychwanegol at fy llythyr diweddar wrth ymateb i'ch rhaglen waith awgrymedig, ysgrifennaf atoch i nodi cylch gwaith ffurfiol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar gyfer tymor hwn y Llywodraeth.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, a ddiweddarwyd gan y Cytundeb Cydweithio, yn nodi agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod y Senedd rhwng 2021 a 2026 a gefnogir gan ei hamcanion Llesiant. Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi'r ymrwymadau uchelgeisiol a radical y byddwn yn eu cyflawni yn ystod y 4 blynedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu ac i wella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'n seiliedig ar werthoedd Cymreig penodol o ran y gymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n blaenoriaethu cydweithio yn lle cystadlu, gan ddangos sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau tegwch i bawb, a chael gwared ar anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas.

Byddwn yn disgwyl i waith NICW helpu i arwain Llywodraeth Cymru tuag at gyflawni ei hamcanion tymor hwy a nodir yn y dogfennau hyn. Yn benodol, o'r 10 o'n hamcanion llesiant ar gyfer y tymor hwn, rwyf yn ystyried y canlynol i fod y mwyaf perthnasol i waith NICW:

- Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni wneud gymaint ag y gallwn i ddatgarboneiddio.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth rydym yn ei wneud.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn llefydd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddynt.
- Dathlu amrywiaeth a cheisio cael gwared ar bob math o anghydraddoldeb.

Yn ogystal â'n nodau a'n hamcanion corfforaethol, dylai NICW fod yn ymwybodol o bolisiâu a rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar ymrwymadau tymor hwy seilweithiau. Yn benodol, y [strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru](#) (2021) a [Cymru'r Dyfodol](#), y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd ein gwaith gyda [Tueddiadau'r Dyfodol](#) hefyd yn darparu data gwerthfawr ar gyfer prosiectau NICW. Oherwydd natur tymor hir y dogfennau hyn, byddwn yn eich annog i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y meysydd hyn i weld a ellir defnyddio'r meysydd sy'n gyffredin yn y sylfaen dystiolaeth i helpu i lywio gwaith NICW.

Bydd NICW yn llywio'r ffordd y byddwn yn mynd ati i wneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol a dylai rhoi cyngor inni ar ein hamcanion ar gyfer seilweith yn y tymor hwy. Bydd yn gweithio mewn ffordd agored, dryloyw a chydweithredol i nodi anghenion seilwaith Cymru ar gyfer y 5-80 mlynedd nesaf. Byddwn yn cynllunio ein buddsoddiad yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyflwyno prosiectau seilwaith a fydd yn ein helpu i sicrhau'r manteision mwyaf ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Dylai NICW fod yn ymwybodol o hyn yn ei waith ac adlewyrchu'r nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy (ffyrdd o weithio) yn ei brosiectau.

Bydd cael Comisiwn cwbl weithredol yn hanfodol wrth sicrhau y gall NICW gyflawni ei rôl yn gywir. Mae proses recriwtio Penodiadau Cyhoeddus wrthi'n cael ei chynnal i benodi Comisiynwyr newydd ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd i'ch cefnogi yn eich gwaith. Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod i chi, mewn gohebiaeth flaenorol, am y gyllideb sydd ar gael i NICW ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

## Rhaglen Waith

Mae'n hollbwysig bod NICW yn cydnabod y rhan y gall chwarae wrth inni anelu at Gymru ddi-garbon. Fel y mae ein Cynllun diweddar, [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2](#) 2021 i 2025) ac [asesiad risg y Pwyllgor Newid Hinsawdd](#) yn ei wneud yn glir, mae'r [Argyfwng Hinsawdd](#) a'r risgiau sy'n dod ohono yn real a phwysig iawn. Mae angen gweithredu nawr i gael gwared ar garbon o'n systemau ac ymateb i'r her o addasu i newid yn yr hinsawdd wrth inni weld y canlyniadau anochel a geir yn sgil newid yn y tymheredd byd-eang. Rhaid i NICW gyflawni ei waith yn unol â'r cylch gwaith hwn gan fod yn ymwybodol o ddyletswyddau statudol llunwyr polisi yng Nghymru. Ym mhob ystyr arall, bydd gan NICW ddisgresiwn i benderfynu ar ei raglen waith, ei fethodolegau a'i argymhellion yn annibynnol, yn ogystal â chynnwys ei adroddiadau a'i ddatganiadau cyhoeddus. Er gwaethaf hyn, mae dau faes penodol o waith y byddai Llywodraeth Cymru'n hoffi i NICW ganolbwyntio arnynt yn ystod tymor y Senedd hon.

## Ynni Adnewyddadwy

Byddwch chi'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2021, wedi cyhoeddi canlyniadau ei [Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy <https://llyw.cymru/gwaith-ymchwil-manwl-ynni-adnewyddadwy-argymhellion.html?\\_ga=2.149356022.1992365260.1649061413-1971922632.1634207838>](https://llyw.cymru/gwaith-ymchwil-manwl-ynni-adnewyddadwy-argymhellion.html?_ga=2.149356022.1992365260.1649061413-1971922632.1634207838). Mae hwn yn nodi cynllun gweithredu clir i Lywodraeth Cymru o ran lleihau'r rhwystrau i ddefnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Hoffwn i Gymru gynhyrchu digon o ynni adnewyddu i o leiaf diwallu ein hanghenion ynni yn llawn ac i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

I ategu'r gwaith hwn, dylai NICW ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng seilwaith ynni adnewyddadwy a seilwaith arall er mwyn anelu at gynhyrchu'r un faint o ynni ag rydym yn ei ddefnyddio. Gall hyn gynnwys edrych i'r dyfodol o ran beth fydd ein hanghenion a'n cynhyrchiant ynni, a ble y bydd angen ynni arnom. Drwy ymchwilio i atebion, ar raddfa genedlaethol, gallai ddangos pa rai fydd yn cynnig yr effeithiau mwyaf buddiol. Byddem yn

croesawu argymhellion ar sut y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadau ar y patrymau hyn gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael iddi.

Rydych wedi nodi mewn gohebiaeth flaenorol y caiff y gwaith hwn ei gynnal yn 2022/23. Gall fy swyddogion eich helpu i edrych yn fanylach ar y gwaith hwn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer NICW a Llywodraeth Cymru.

### Gwrthsefyll Llifogydd a Newid Hinsawdd

Byddwch chi'n ymwybodol bod y [Cytundeb Cydweithio](#) yn gwneud dau ymrwymiad mewn perthynas â llifogydd yng Nghymru:

#### *13. Adolygiad o lifogydd*

*Byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r adroddiadau Adran 19 a luniwyd mewn ymateb i'r llifogydd a achoswyd gan dywydd eithafol yng Nghymru yn ystod gaeaf 2020 a gaeaf 2021, gan gomisiynu adolygiad hefyd o'r adroddiadau a luniwyd gan CNC. Byddwn yn gweithredu ar yr argymhellion a wneir.*

#### *16. Buddsoddiad cyfalaf a chydnerthedd cenedlaethol o ran llifogydd*

*Byddwn yn buddsoddi mwy mewn rheoli a lliniaru perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod tymor y Senedd hon. Y tu hwnt i hynny, a chan edrych ar sut y gallwn gynllunio mewn ffordd strategol er mwyn ymateb i'r ffaith bod mwy o berygl llifogydd, byddwn yn gofyn i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gynnal asesiad o sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad erbyn 2050.*

Mae llawer o waith eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes hwn. Felly, mae angen i hyn ategu'r gwaith o gyflawni mesurau'r [Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol](#) yng Nghymru ac yn fwy penodol yr Amcan allweddol sy'n canolbwyntio ar Baratoi ac Adeiladu Cydnerthedd yn unig.

Rydych wedi nodi mewn gohebiaeth flaenorol y caiff gwaith yn y maes hwn ei gynnal yn 2023/23 a 2024/25. Mae hyn yn rhoi digon o amser inni gydweithio â phartneriaid ein Cytundeb Cydweithio a swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio ymchwiliad NICW er mwyn sicrhau y bydd ei waith a'i argymhellion yn cyflawni'r canlyniadau gorau i bawb.

Dylai NICW geisio bod yn dryloyw ac yn ymgynghorol yn ei waith, gan ymgysylltu'n eang â phobl a datblygu consensws ar gyfer ei argymhellion.

Bydd ansawdd y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i argymhellion NICW yn ystyriaeth allweddol i'r llywodraeth, a dylai NICW sicrhau bod ei argymhellion wedi'u blaenoriaethu'n glir. Wrth ddatblygu ei argymhellion, dylai NICW ystyried unrhyw gyfaddawdau rhwng cynnal asedau seilweithiau a manteisio i'r eithaf arnynt a'r cyfleoedd sy'n codi o seilwaith newydd. Yn y ddau achos, bydd dyfarniadau NICW ar achos gwerth am arian pob dull yn hanfodol. Dylai NICW hefyd ystyried yr effaith y gallai newid technolegol a newid arall yn y dyfodol eu cael ar anghenion seilwaith a'r atebion.

Dylai NICW ganolbwyntio ar nodi materion hollbwysig y mae angen i seilwaith yng Nghymru fynd i'r afael â nhw yn y tymor hir. Fel arfer, ni ddylai geisio nodi atebion penodol yn fanwl - i nodi atebion mae angen dadansoddiad manwl a gynhelir trwy werthuso opsiynau a datblygu achosion busnes. Am yr un rheswm, ni ddylai NICW geisio gwneud ei argymhellion yn seiliedig ar amcangyfrifon costau manwl gywir. Fodd bynnag, bydd angen i NICW ystyried graddfa debygol y costau sy'n gysylltiedig â'i argymhellion a sicrhau bod gobaiht realistig y bydd ei argymhellion yn cael eu cyflawni.

Rhaid i NICW gadw at y cylch gwaith hwn yn llawn oni bai, a nes, y caiff ei ddisodli mewn llythyr cylch gwaith dilynol. Rwyf hefyd yn atodi fersiwn ddiwygiedig o Gylch Gorchwyl NICW i'r llythyr hwn, sydd wedi'i ddiwygio yn dilyn awgrymiadau gennych chi mewn gohebiaeth flaenorol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi drwy gydol gweddill tymor y Senedd hon a disgwyliaf yn eiddgar i glywed gan NICW gyda'i argymhellion ar amrywiaeth o feysydd pwnc.



**Lee Waters AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change